
YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 38. RHIF 5 HYDREF 2016 50c

# O FAES Y BRIFWYL YN Y FENNI



*John Williams a Robin Huw Bowen ar ddydd yr urddo*



*Glynn Morris a enillodd cystadleuaeth Canu Emyn (trwy ganiatâd Lluniau'r Llwyfan)*



*Heulwen Bott, Deganwy (a gynt o Gymdeithas Cymry Caer), darlithydd a fu'n garedig i dalgyrch Yr Angor*



*Islwyn Jones, Wyddgrug (Runcorn gynt), canwr o fri*



*Parchedig J. Gwyndaf Richards a Mrs Eirlys Richards a fu yn ein gwasanaethu yn Lerpwl a Phenbedw ar 21 Awst*

*Lluniau:*
*Dr. John G. Williams, Ms Sara Williams a Lluniau'r Llwyfan*

## YN Y RHIFYN HWN:

Coffad: Margaret Jones; Parchg. D. Glanville Rees; Gwyneth Eluned Thomas; Cyfres newydd - Darllenwyr Yr Angor, Tudalen y Dysgwyr, Gŵyl Cadair Ddu Penbedw; Newyddion Bethel, Seion, Bethania. Gwahoddiad i Gymry Lerpwl.

Golygyddol

# Cofio Hedd Wyn a'r Rhyfel Byd Cyntaf ym Mhenbedw 2017

gan D. Ben Rees

Yn y rhifyn hwn ceir Apêl am gymorth personol ac ariannol i gynnal Gŵyl Hedd Wyn (9 a 10 Medi 2017) ym Mharc Birkenhead. Y mae gweithgareddau di-ri i'w gynnal trwy bartneriaeth Cyfeillion Parc Penbedw (cymdeithas a sefydlwyd gan un o Gymry Penbedw), Awdurdod Ymddirieolaeth Eryri (sydd yn gyfrifol am adnewyddu cartref Hedd Wyn, Yr Ysgwrn yn Nhrawsfynydd) a ninnau, Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi. Y mae pob un ohonom a'i diriogaeth ond Cadair Ddu Birkenhead yw'r ffocws a'r Gofeb sydd yn y Parc gan fod angen ei adnewyddu a gosod camp ac aberth y bardd arni.

Preifat yn y *Royal Welch Fusiliers 15th Battalion* oedd y bugail, a diddorol cofio iddo orffen ei awdl yn y gwersyll milwrol yn Litherland. Pan alwyd ei ffug-enw ('Fleur-de-lys') gan yr Archdderwydd Dyfed yn eisteddfod genedlaethol Birkenhead, Medi 6, hysbyswyd ei farwolaeth. Syrthiasai fel llawer Cymro arall ym mrwydr Cefn Pilkem, 31 Gorffennaf, 1917.

Bwriadwn baratoi ar gyfer yr amgylchiad yn drwyadl fel y gwnaed gyda'r *Mimosa*. Y mae'r lleoliad yn dda, yn ymyl Canolfan Parc Birkenhead, lle ceir toiledau, ystafelloedd, cyfleusterau i gael bwyd, fel y medr rhai a ddaw i'r Ŵyl ryddid i fod yno am y dydd neu am y pnawn, neu am y nos. Yn ymyl y Ganolfan bwriedir gosod Pabell i ddal 500 o bobl gyda llwyfan (ac mae Cyfeillion Parc Birkenhead yn gyfrifol am hyn), Arddangosfa o Hedd Wyn a'i Gadair (a gofelir am hyn gan Awdurdod Ymddirieodlaeth Eryri). Ceir cyfraniadau yn y ddwy iaith, darlith yn Gymraeg ar Hedd Wyn, yn Saesneg ar Lloyd George. Bydd sustemau cyfieithu ar y pryd yno. I gloi'r ŵyl Gŵyl y Gân (sef y Gymanfa Ganu) gan ganu emynau Cymanfa 1917 a gofelir am hyn gan Bwyllgor Mawl Dosbarth Lerpwl. Bydd Cymdeithas Gymraeg Birkenhead yn cydweithio hefyd a byddaf yn nechrau Hydref yn trafod y cynlluniadau gyda hwy. Y mae argoelion o Ŵyl gofiadwy ar y gorwel, cydweithiwn fel y medr hi fod yn llwyddiant.

***Cofiwch y dyddiad 9 a 10 Medi 2017.***

## Encil Henaduriaeth Y Gogledd Ddwyrain 1/9/2016

# Thema: "Ble mae Duw?"

*"Wel, dyma hyfryd fan i droi at Dduw"* ebe'r emyn a dyma yn union be wnaethom ni yng Nghanolfan Heddwch Pantasaph. Daeth 24 ohonom ynghyd gyda'r mwyafrif wedi teithio o bell – Lerpwl, Manceinion, Glyn Ceiriog, Nercwys, Weston Rhyn, Wyddgrug a Threffynnon). Cawsom anerchiad hwyliog a difyr gan y mynach Br. Martin – fo ydy'r *Cappuchino Capuchin* sy'n gyfrifol am Gaffi St Padre Pio ar y safle.

Braf oedd ymlwybro yn hamddenol yng ngwres cysurlon yr haul i Ardd Weddi St. Padre Pio, yna, ar ôl myfyrio a gweddio, ymlaen i Grotto Y Forwyn Fair. Rhyfeddu yno ar y tlysau a'r croesau yn hongian ar freichiau cerflun o'r Forwyn Fair. Braf oedd sylwi ar yr arwyddbyst yn y goedwig yn cyhoeddi Gair Duw. Nes ymlaen, ymlwybro yn dawel i fyny'r llwybr garw hir, yn igam-ogam i gyrraedd Gorsafoedd y Groes ymysg ymwelwyr eraill. Wedyn cyrraedd copa Calfaria yn ddi-anaf a diogel. Mor wahanol oedd hyn i daith ein Crist, yn gorfod cario croes ei hunan cyn dioddef croeshoelio creulon. Ar ôl dychwelyd i lawr o'r bryn dyma fynd i'r eglwys a chael lloches o wres yr haul.

*"Gwell golau un gannwyll fechan na melltithio'r tywyllwch"* – dyna wnaed ac offrymu gweddi fud a'r tawelwch llethol yn siarad cyfrolau o gysur a gwirioneddau'r Gair yn adleisio …. Baban Mair, mab y Duw Byw, ein Gwaredwr ar waith yn ein plith. Cyn ymadael roedd cyfle i gael "llun i'r Goleuad" a ninnau i gyd bron ym mreichiau agored y cerflun o Grist, gyda'r adnod "Dele Dy Deyrnas" o flaen y drws i'r mynachdy. Ar ôl ffarwelio â Br. Martin a Phantasaph dyma fynd i lawr yr allt i Eglwys Penbryn Treffynnon i fwynhau brechdanau ein hunain, rhannu sgwrs hefo paneidiau o de hyfryd. Cawsom gyflwyniad rhagorol o Hanes yr Achos gan Alun Evans ar Powerpoint – diddorol iawn a phawb wedi dysgu ystyr yr enw Penbryn a'r sillafiad cywir hefyd!

Parchg. Eirlys Gruffydd Evans oedd yn ein tywys i seiadu ar thema y dydd "Ble mae Duw?" Cafwyd ymatebion diddorol iawn gan y tri grŵp ac fe arweiniodd hyn yn daclus at ddiweddglo yr encil – sef Cymun yng ngofal Parchg. Huw Powell-Davies.

A gawsom ni hyd i Dduw? Yn bendant fe gawsom hyd Iddo. Roedd hefo ni trwy'r dydd i gyd, o'r dechrau i'r diwedd.

*"Mae Duw yn llond pob lle,*
*presennol ym mhob man…."*

Roedd yn ein cofleidio fel yn y cerflun yn yr haul braf, tu ôl, tu blaen, uwchben, oddi tanodd ond yn fwy na hynny, oddi mewn i'n calonnau bregus. Fo sydd wedi cael hyd i ni. Diolch i Dduw am hynny.

***Geraint Jones (Ysg.)***



*Coffâd*

# Mrs Margaret (Humphreys) Jones

**(1932-2016), Wallasey**



**Yr oedd Margaret Jones yn un o gymeriadau anwylaf Glannau Mersi, yn unigryw o ran cefnogaeth, ymroddiad, haelionus. Ganwyd hi ar 21 Gorffennaf 1932 i Teddy ac Anne Humphreys, hi oedd yr ail blentyn o bump, Liz, Humphrey (neu Wmffra), fel y byddaf i yn ei alw, Alice, Richard a Goronwy. O'i dyddiau cynnar yr oedd hi yn ofalus o'i brodyr a'i chwiorydd. Pan gafodd Wmffra y frech goch yn bedair oed dyma Margaret yn ei anwylo gyda'r canlyniad iddi hi gael yr aflwydd a bu'n rhaid i'r ddau gael gofal mewn Ysbyty. Yn wyth oed bu'n rhaid iddynt adael Princes Way yn Wallasey gan i'w chartref gael ei fomio. Tanygrisiau oedd ei noddfa, er i Margaret dreulio blwyddyn gyda'i modryb a'i ewythr yn Llandudno, lle y daeth hi yn ffrindiau mawr gyda'i chyfnitherod Dilys, Mair a Elinor. Cafodd flwyddyn fendigedig a mwynhaodd hefyd y gymdogaeth dda yn Nhanygrisiau, y llynnoedd a'r Moelwyn.**

**Ar ôl dychwelyd i Wallaey ganwyd 'y cyw melyn olaf' ei brawd Goronwy, a bu fel Mam iddo. Bu'r ddau yn agos iawn i'w gilydd, yn wir yr oedd hynny yn wir yn ei pherthynas a pob un oll. Sonia yn aml am Blaenannerch, Ceredigion, lle trigai modryb arall iddi, Auntie Sally. Yn yr ysgol gwnaeth ffrindiau, un ohonynt Grace a barhaodd ar hyd y blynyddoedd.**

**Ar ôl gadael Ysgol cafodd ei hyfforddi mewn Coleg ger Kidderminster, ac yno y cyfarfu gyda Letty, a phenderfynodd y ddwy symud i Lundain fel athrawon ifanc. Cafodd amser pleserus yn y ddinas fawr, yn y capel, yn mwynhau tenis yn Wimbledon, a'i chwarae yng nghartref yr unawdydd opera, Sir Geraint Evans. Fe gofiwn am y dair chwaer Liz, Alice a Margaret yn cysgu allan yn Oxford Street adeg Coroni'r Frenhines yn 1953 er mwyn cael y *front row.* Ar ôl rhai blynyddoedd yn Llundain penderfynodd Margaret a'i ffrind Letty ymfudo i Ganada ar y llong *Empress of Britain* yn 1958. Cafodd swydd mewn stordy mawr yn Toronto ac yna i gwmni insiwrans. Ond plant ac addysg oedd ei hoffter a chafodd swydd yn Weymouth, Nova Scotia.**

**Yno y cyfarfu a'r un a ddaeth ynŵr iddi, Sam ac fe'i priododd yn 1962. Symudodd y ddau i Bedford, Halifax, lle braf, tir a digon o le i fusnes ei phriod fel clustogwr. Cafodd hi swydd yn Ysgol Richmond, yn Halifax, ysgol anodd ym mhob ffordd, rhai o'r plant a'r rhieni. Ond clymwyd y staff gyda'i gilydd i oresgyn yr anawsterau. Deuai aelodau o'i theulu, ei rhieni yn 1964, Alice yn 1966, ei chyfnither Jane a Jack Campbell o Los Angeles. Daeth Margaret yn fam yn 1967 a ganwyd Alan a fu yn gannwyll ei llygaid. Daliodd i ddysgu ar ôl cyfnod mamolaeth, ac astudiodd ar gyfer gradd mewn Saesneg yn Mount Saint Vincent University. Cadwai gysylltiad agos â'r teulu. Wynebodd brofedigaeth fawr yng ngwanwyn 1973 pan fu farw ei phriod fel canlyniad i ddamwain car, a dychwelodd hi a'i mab bychan i Langdale Road, Wallasey, yn agos i'w Mam a Goronwy. Cafodd swydd yn Ysgol Mount ac ailafaelodd yn y bywyd Cymraeg Cymdeithas Wallasey a Chapel Presbyteraidd Rake Lane.**

**Ar ôl i'w mam gael trawiad yn 1977 gofalodd hi a Liz yn annwyl amdani, a symudodd hi a'i mam a'i mab i Keswick Road yn agos at Gron a Joyce a'u teulu. Ymddeolodd o ddysgu yn 1988, ac ymunodd â llu o gymdeithasau, fel Cymdeithas mynd ar grwydr, cymdeithas clefyd siwgwr. Byddai yn ymwelydd da i'r cleifion, a gofalodd ar ôl ei ŵyr Nicholas am ddau ddiwrnod yr wythnos am flynyddoedd, a dotiai at y ddau arall, Daniel a George.**


**Yr oedd crwydro yn ei gwaed. Gwyddai am bob rhan o Brydain, a byddai wrth ei bodd yn mynd i Sbaen a chael cyfle i weld Alice ac Alfonso yn Caceres. Cafodd aml i ddamwain a syrthio ond daliai i deithio i Llydaw i weld ei brawd Wmffra. Mwynhaodd byd gwersylla yn Cernyw gyda Alan, Karen a'r teulu, a gyda Allen, Bety a Mark. Yr oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn golygu llawer iddi a Chapel Seion, Laird Street, Penbedw lle bu yn un o'r ffyddloniaid. Yr oedd bob amser yn serchus, a diolchgar. Cefnogodd achosion elusennol. Yr oedd hi'n benderfynol i gefnogi y gwaith cenhadol, y dystiolaeth lenyddol, hanesyddol am y Cymry ac yn gwerthfawrogi cael cymorth i fynychu ei chapel.**

**Bu farw yn Ysbyty Arrowe Park a bu'r arwyl ar bnawn Gwener, 22 Gorffennaf yn ei chartref newydd o dan ofal y Parch Eleri Edwards, yn Amlosgfa Landican a Chapel URC pentref Wallasey o dan ofal y Parch. Jeff Hughes, y Gweinidog a'r Parchedig D. Ben Rees a wasanaethodd yn angladdau ei rhieni a'i chwaer Alice. Cydymdeimlir â'r holl deulu.**

***D. Ben Rees***

# CORNEL Y TRYSORYDD

## HYDREF 2016



| | |
|---|---|
| Mr Ken Williams,Woolton | £50.00 |
| Yr Athro Huw Rees, Boncath | £30.00 |
| Rhodd Eglwys Bethania, Lerpwl | £50.00 |
| Mr a Mrs John Lyons, Knowsley | £30.00 |
| Miss Glenys Jones, Bethania | £20.00 |
| Mrs Mair Jones, Childwall | £15.00 |
| Mr a Mrs John Sargent, Penbedw | £30.00 |
| Mrs Lois Murphy, Manceinion | £25.00 |
| Er Cof am Mr Sam Prouting, Allerton | £30.00 |
| Mr a Mrs Robyn Williams, Caergybi | £25.00 |
| Mr a Mrs Idris Roberts, Allerton | £25.00 |
| Mrs Christine Hughes, Dinbych | £20.00 |
| Mr a Mrs Alun Vaughan Jones, Childwall | £20.00 |
| Athro Emeritws David Price Evans, Woolton | £20.00 |
| Mrs Enfys Hughes, Bryn Teg | £11.00 |
| Mr a Mrs Gareth Pritchard, Llandudno | £20.00 |
| Mr a Mrs Ruth Rushton a'r teulu, Prenton | £11.00 |
| Mr a Mrs Eurfryn Davies, Llandegfan | £35.00 |
| Mr Huw Thomas, Holmes Chapel | £25.00 |
| Mrs Beryl H Jones, Welwyn Gdn.City | £60.00 |
| Dr a Mrs D. Ben Rees, Allerton | £30.00 |
| Mr Dafydd Ll. Rees, West Hampstead | £15.00 |
| Hefin Rees QC a Dr Bethan Rees, Harpenden | £15.00 |
| Mrs Betty Lockyer, Betws Bledrws | £12.00 |
| **Cyfanswm** | **£604.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Gobeithio i chwi i gyd fwynhau eich hunain dros fisoedd yr haf. Mae 'na rhyw chwalfa ym mysg Cymry Lerpwl amser hyn o'r flwyddyn. Byddwn naill ai'n anelu trwyn y car tuag at yr A55 i ymweld â theulu a ffrindiau, i anadlu peth o awyr iach cynhenid i ni, neu hedfan i wledydd gwahanol i weld mwy ar y byd. Diolch y gallwn fwynhau hir-ddydd haf ble bynnag y byddwn.

Bore Sadwrn, yr ail o Orffennaf daeth llond bws o Lanfair Talhaearn i weld y capel a chael paned a sgwrs yn y ganolfan cyn cychwyn am y dref yng nghwmni ein gweinidog y Parchedig Dr. D. Ben Rees. Gwŷr ef yn anad neb am ein treftadaeth Gymraeg yn y ddinas hon.

Daeth llwyddiant i ran tri o'n hieuentid. Derbyniodd Lowri Phillips, Allerton radd 2:1 raddio yng Ngwleidyddiaeth o Brifysgol Leeds; Ben Thompson, Woolton, yntau 2:1 yng Ngwleidyddiaeth, Athroniaeth ac Economeg o Brifysgol Sheffield, ac Olivia See, Woolton, ganlyniadau ardderchog yn y Lefel A. Mae hi a'i bryd ar fynd i Brifysgol Caerdydd i astudio Daearyddiaeth Dynol. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau'r Eglwys iddynt yn eu meysydd gwahanol.

Ar y Sul 17eg o Orffennaf cafwyd pleidlais gadarnhaol gan yr holl aelodau oedd yn bresennol i symud ymlaen i ddewis rhagor o flaenoriaid. Cymer hyn le ar y Sul, Tachwedd 13, 2016.

## *CYMDEITHAS CYMRY LERPWL*




***Wrth orffen rhaglen yr haf cawsom noson braf a bwffe blasus yng nghlwb criced Lerpwl ar ffordd Aigburth. Digon o amser i siarad ac edrych ymlaen i ddechrau'r tymor nesaf ym mis Medi. Y mae rhaglen y Gymdeithas allan a diolchir am yr holl drefnu ar ein rhan. Gweler yn y rhifyn hwn Gwahoddiad i Gymry Lerpwl.***


Yn yr oedfa ar Awst 7fed cydymdeimlwyd â Mr. Idris Roberts ar teulu o golli mam a nain annwyl iawn iddynt yn Rhostryfan. Bu fyw i oedran teg – yn 94 mlwydd oed. Hefyd gyda Roy, Pamela, Hazel a William ar golli eu tad – Mr. John Tegid Williams yn 27 Montclair Drive.

Derbyniodd Mrs Elan Jones, Mossley Hill driniaeth lawfeddygol ar ei chalon yn ysbyty Broadgreen. Mae hi'n dal i gryfhau a syndod ond llawenydd mawr i'w gweld yn yr oedfa olaf ym mis Awst. Y capel yw eil hail gartref.

Bu rhai ohonom ar ymweliad â'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni ddechrau Awst. Ein llongyfarchiadau calonnog i Dr. John Williams ar ei urddo



***Lowri Phillips a'i rheini yn Leeds***



***Ben Thompson a'r teulu yn Sheffield***



*O'r chwith i'r dde - Jenny (y ferch), Andrew ac Anita Solomon a Dr. D. B. Rees ar ddiwedd y gwasanaeth*

i'r wisg las yng ngorsedd y Beirdd ddydd Gwener. Ei enw barddol yw Gwydrin. Yr oedd llun ohono ar dudalen flaen y *Daily Post* y Sadwrn dilynol. Pleserus iawn oedd clywed a gweld yr holl gystadlu ar Radio Cymru ac S4C o fore gwyn tan nos.

Anfonwn ein cofion annwyl atoch oll sy'n gaeth i'ch cartrefi ar hyn o bryd. Braf oedd cael gweld Mrs Louie Jones adre yn ei chartref yn Wheatcroft Road, Allerton. Edrychwn ymlaen rwan at ddarpariaeth tymor yr Hydref ac i ail-ymaflyd yn y gweithgareddau a'r cymdeithasu.

Mae rhaglen y Gymdeithas Lenyddol yn barod ers tro, a diolch i'n gweinidog am hynny. Dylem wneud yn fawr o'r paratoi a wneir ar ein cyfer ym mhob agwedd o fywyd yr Eglwys.

Ar bnawn Llun, 22 Awst yn y Capel cafwyd gwasanaeth o adnewyddu cwlwm priodasol rhwng Anita ac Andrew Solomon, Bae Colwyn o dan ofal ein gweinidog. Priodwyd y ddau yn yr hen Gapel ac ar ôl blynyddoedd teimlwyd yr angen o gydrannu yr addewidion priodasol. Trefnodd Dr. Rees fod ei comitment ar wahân ac yn ei cyflwyno am y tro cyntaf i'w gilydd. Fel y gellid disgwyl yr oedd yn wasanaeth emosiynol a gwerthfawr, ac mae'n debyg yr unig un erioed i'w gynnal yn y Capel ers ei agor. Yn wir oes na gapeli Cymraeg eraill ym Manceinion neu glannau Mersi lle y cafwyd gwasanaeth tebyg yr hanner can mlynedd diwethaf?

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Braf iawn oedd cael croesawu aelodau o Bethel, Heathfield Road i'r oedfa Undebol, a gynhaliwyd yn Eglwys Crist, Waterloo ar fore Sul, 14 Awst, o dan weinidogaeth y Parchedig Eleri Edwards, Manceinion. Erbyn hynny yr oeddem yn ymwybodol fel eglwys o'r golled a ddaeth i gapeli Cymraeg Manceinion a Glannau Mersi ym marwolaeth y bythol ifanc, y Parchedig David Glanville Rees, Southport. Cynrychiolwyd yr achos yn yr oedfa gofiadwy a gynhaliwyd o dan ofal ein Gweinidog yn un o gapeli harddaf ein cylch yn Port Sunlight gan John a Marian Lyons. Tanlinellodd ein Gweinidog yn ei deyrnged gynhwysfawr mai ym Methania y traddododd y Parchedig D. G. Rees ei bregeth olaf ag yntau yn 96 mlwydd oed. Diolchwn am ei raslonrwydd, yr eneiniad ar ei neges a'i ofal amdanom fel cennad y Gair.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

***Croesawu –*** Ar y Sul cyntaf yng Ngorffennaf pleser oedd croesawu Mrs Alice Jones, Heswall i'r oedfa. Rydym yn falch iawn o'i chwmni ar bnawn Sul. Cyflawnodd hi a'i diweddar briod Mr. Hywel Jones ddiwrnod da o waith ymhlith Cymry Penbedw.

***Colli ffyddloniaid –*** Bu farw ein haelod hoffus ac unigryw, Mrs Margaret Jones bore Sul, Gorffennaf 3ydd ar ôl gwaeledd caled, a cheir coffâd iddi yn y rhifyn hwn o'r *Angor*. Ar Gorffennaf 15fed bu farw ein haelod hynaf, Mrs Gwyneth Thomas oedd wedi dathlu ei phenblwydd yn gant oed mis Ionawr diwethaf. Fe'i ganwyd ym Mangor a symudodd i Cilgwri yn y 1950au ac aelodi yng Nghapel Rock Ferry ac wedi i aelodau Rock Ferry uno â Salem yn 1963 daeth hithau yn aelod yma. Bu'n ffyddlon iawn i holl weithgareddau'r Capel am flynyddoedd ond fe fethodd fynychu'r cyfarfodydd ar ôl peidio a gyrru'r car. Am y ddwy flynedd olaf yma bu mewn Cartref, Penketh Lodge, yn Wallasey ac yn fodlon ar ei byd yno. Bu'r angladd yn Landican ar y 28ain o Orffennaf.

***Llongyfarchiadau –*** i Dáire Roberts, ŵyr Trefor ac Eirina Rberts am raddio gyda anrhydedd B.Mus ym Mhrifysgol Brenhinol Cymru, Cerdd a Drama, Caerdydd, yn astudio'r Violin a'r Viola. Mae wedi ei dderbyn i'r Royal College of Music, Manceinion i wneud ei Masters. Dymunwn yn dda i'r dyfodol.

***Cydymdeimlo –*** Cydymdeimlwn gyda Mrs Olwen Roose Jones, Wallasey yn y brofedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith, sef Thomas Wynne Jones, Dinbych. Yr oedd ef a'i diweddar briod Ron Jones yn efeilliaid. Coffa da am ddau frawd.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Fel Cymdeithas, trist yw cofnodi ein bod wedi colli aelod ffyddlon ym marwolaeth Dr. Essillt Thomas yn ystod mis Awst. Gwraig Mr Tom Thomas, cyn lywydd, aelod selog ac athro llawer o'n dysgwyr. Anfonwn ein cydymdeimlad dyfnaf at Tom, y meibion, Glyn ac Alun a'i teuluoedd.

Ers dechrau'r flwyddyn rydym wedi colli pump o aelod selog ac annwyl. Bydd colled mawr ar ôl pob un ohonynt.

## *Cysylltiad Robin Huw Bowen ag Arglwyddes Llanofer*

Bu llawer o sôn am Arglwyddes Llanofer (1802-1896) yn ystod yr Eisteddfod y Fenni oherwydd ei chefnogaeth i'r Gymraeg a cherddoriaeth y delyn deires. Nid oedd rhyfedd felly gweld y telynor poblogaidd a anwyd ac a fagwyd yn Lerpwl yn brysur iawn yn ystod yr wythnos yn ymddangos mewn nifer o berfformiadau ar y maes gyda'i delyn.Erbyn hyn mae'r delyn deires yn unigryw i Gymru fel traddodiad di-dor ers dros dri chant o flynyddoedd, ac mae sŵn ei thair rhes o dannau mor unigryw â'r iaith Gymraeg ei hun.
Braint oedd cael bod yn y cyngerdd a gynhaliwyd yn nhŷ'r Arglwyddes sef 'Tŷ Mawr', Llanofer gyda 6 o delynorion teires. Uchafbwynt y noson oedd gwrando Robin Huw Bowen yn chwarae telyn yr Arglwyddes. Roedd llun o'r Arglwyddes ar fur yr ystafell yn edrych y telynorion - tybed a welodd rhywun wên ar ei hwyneb?

***John Williams***

**• Ôl Nodiad y Golygydd:**
Gweler llun o Robin Huw Bowen (Telynor Cymru II) a Dr. John G. Williams (Gwydrin) yn eu gwisg gorseddol ar y dudalen flaen. Dau eisteddfodwr o fri.

*Ysgrif Goffa*

# Y Parchedig David Glanville Rees, MA, BD.

## SOUTHPORT (1920-2016)


**Ar 2 Awst 2016 yn Ysbyty Southport a Formby bu farw y Parchedig David Glanville Rees yn 96 mlwydd oed, a chollodd Cymry'r Glannau un o'i hynafgwyr anwylaf. Traddododd ei bregeth olaf yng nghapel Bethania, Waterloo ar 10 Ebrill y flwyddyn hon a gofidiai yn fawr ei fod yn gorfod ildio i wendid corff ag yntau mor awyddus i draethu y newyddion da. Ganwyd ef yn Nhreboeth ger Abertawe yn fab hynaf Elizabeth a Ben Rees. Bu farw y tri brawd o fewn dwy flynedd i'w gilydd, yr ail frawd y Parchg. Bromley Rees, Coedpoeth a'r ieuengaf Aethon Rees. Symudodd y teulu i Rydaman lle bu ei dad yn golier glo caled ar ôl y dirwasgiad 1926. Ymaelododd y teulu yn eglwys Bresbyteraidd Bethany a magwyd ef o dan weinidogaeth yr efengylydd, Parchedig W. Nantlais Williams ac yn ddiweddarach y Parch J. D. Williams.**

**Wedi pasio'r Bwrdd Ymgeiswyr cychwyn ar y daith hir o baratoi ar gyfer y Weinidogaeth yng Ngholeg Trefeca ac oddi yno i Goleg y Brifysgol yng Nghaerdydd yn 1940. Astudiodd Athroniaeth, Groeg a Hebraeg gan raddio yn 1943. Enillodd BA yn y Dosbarth Cyntaf. Aeth ymlaen i Goleg Diwinyddol Aberystwyth i astudio ar gyfer gradd B.D., gan arbenigo mewn Hebraeg. Arhosodd flwyddyn ychwanegol er mwyn derbyn o allu yr Athro Bleddyn Jones Roberts, a ddaeth maes o law yn frawd yng nghyfraith iddo. Graddiodd ac yna symud ymlaen i Golegau Mansfield a Sant Catherine ym Mhrifysgol Rhydychen.**

**Yr oedd 1948 yn flwyddyn fawr iddo. Derbyn galwad i fugeilio Eglwys London Road, Castell Nedd a chael ei ordeinio gan Gymdeithasfa'r De yn Sasiwn Charing Cross, Llundain ar y seithfed o Dachwedd. Llywydd y Gymdeithasfa a'i ordeiniodd oedd ei dad yng nghyfraith y Parchedig John Davies, Gweinidog Salem (Capel Morfa y dyddiau hyn), Aberystwyth am 30 mlynedd. Priododd yn 1948 Nansi Margaret Davies yng Nghapel Coleg Mansfield gyda'r Prifathro Nathaniel Micklem yn gwasanaethu.**

**Nansi oedd merch ieuengaf Annie a John Davies, ac yr oedd ei chwaer Miriam yn briod gyda'r Parchedig Athro Bleddyn Jones Roberts a wnaeth ddiwrnod da o waith fel un o gyfieithwyr yr Hen Destament ar gyfer y Beibl Newydd Saesneg ac fel Cadeirydd y Panel a gynhyrchodd Beibl Cymraeg Newydd. Yr oedd y ddau deulu yn meddwl yn fawr o'i gilydd.**

**Symudodd Glanville a Nansi o Gastell Nedd i ofalu ar ôl Eglwys Bresbyteraidd Saesneg, Llandudno yn 1952, lle y bu am ddeg mlynedd yn llwyddiannus fel Gweinidog a Bugail. Symudodd i ofalu ar ôl Eglwys Bresbyteraidd Lloegr, Sefton Park, Lerpwl, y Gweinidog cyntaf nad oedd o'r Alban oherwydd dyna'r traddodiad o'i gweinidog enwog, Dr. John Watson. Yn y cyfnod hwn gwnaeth radd MA mewn seicoleg cymdeithasol ar y testun 'Agweddau Rhyngenwadol ar Dduw'.**



*Parchg. D. Glanville Rees*

**Derbyniodd gyfle yn 1969 i fod yn brif ddarlithydd i ddysgu'r pwnc yng Ngholeg Edge Hill, Ormskirk. Dysgai gwrs anrhydedd Prifysgol Lancaster nes iddo ymddeol yn gynnar yn 1982 er mwyn canolbwyntio ar ei alwedigaeth. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n gofalu am eglwys Bresbyteraidd Parkfield, Yr Wyddgrug. Gofalodd am Eglwys Ddiwygiedig Unedig Norris Green o 1977-1982, pryd y cafodd alwad i fugeilio Eglwys St. George's yn Lord Street, Southport a hefyd Capel Cymraeg Peniel, Portland Street, Southport lle yr anwylid ef yn fawr. Bu yno hyd ddiwedd 1989. Symudwyd i Gilgwri a bu yn arwain Eglwys URC Tranmere (1989-92) a chymerodd ofal o Eglwys Bresbyteraidd City Road, Caer, yn wreiddiol am flwyddyn, ond yn y diwedd bu yno am ddeg mlynedd! Tristwch mawr iddo ef a'r teulu oedd colli ei briod annwyl a mam hoffus ym mis Ionawr 2000, ond daliodd yn gadarn gan fod yn ffyddlon i'r eglwys o bob enwad. Cawsom ni fel Henaduriaeth Lerpwl ei orau a bu'n gwasanaethu capeli fel Bethel Heathfield Road, Bethania, Waterloo a Seion, Penbedw am dros hanner can mlynedd. Teithiai mor bell â'r Bala i bregethu ac yna draw i Manceinion, ac edrychai y ffyddloniaid ymlaen at ei weinidogaeth ysbrydoledig. Yr oedd ganddo gof eithriadol a bu yn fawr ei ddiddordeb ac yn frwdfrydig i wasanaethu ei Arglwydd ar lwybr y Gair.**

**Bu yn Gaplan ar lawer achlysur, ef oedd Caplan Maer Cilgwri pan fu Mrs Hilary Jones yn y swydd, a gwasanaethodd Lleng Brydeinig Rock Ferry am lawer blwyddyn.**

**Ganwyd i'w briod ag yntau ddau fab, John a Gareth. Addysgwyd y ddau yng Ngholeg Lerpwl. Rhoddodd John Rees oes (42 mlynedd) o wasanaeth i Ysgol Bluecoat. Daeth yn bennaeth Adran PE a chwaraeodd hoci dros Gymru. Mae ganddo atgofion melys pan oedd ef yn llanc o'i dad yn mynd ag ef bob Sadwrn i wylio pêl-droed. Un Sadwrn byddai'r ddau yn Anfield a'r Sadwrn canlynol ym Mharc Goodison. Ef a wasanaethodd ym mhriodas John a Jayne yn swydd Efrog yn 1979, a bellach mae'r ddau yn byw yn y cartref a fu i'w rieni yn Allerton.**

**Bu Gareth yn ddeintydd ond clywodd yntau alwad y Weinidogaeth fel ei dad, a llawenydd mawr iddo oedd gweld yr ail fab yn cael ei ordeinio i Eglwys Brebyteraidd Cymru ac yn cael ei sefydlu yn Weinidog ar Gapel Moreton yn 2002. Ei dad a wasanaethodd yno ym mhriodas Gareth a Susan yng Nghapel Moreton yn 2003. Meddyliai yn fawr o'i deulu, a'r ŵyr a'r wyres, Nicholas a Jemma.**

**Yr oedd Glanville yn Gymro i'r carn. Cysur mawr iddo oedd canu emynau Seion, clywed y corau meibion, gwylio Cymru yn chwarae rygbi. Medrai ymlacio yn gwylio chwaraeon o bob math yn arbennig criced a phêl-droed. Bu yn ddarllenwr mawr ac yn gyfathrebwr effeithiol. Mynnodd gadw ei annibyniaeth a gwerthfawrogai y cymwynasau a ddeuai i'w ran, gofal yr Ysbyty y misoedd diwethaf, a bu ei gymydog yn Southport, Helen Brown yn hynod o garedig. Dirywiodd ei olwg y blynyddoedd diwethaf ond daliodd yn llawn ffydd yn addewidion yr Efengyl.**

**Bu'r arwyl yn Amlosgfa Southport ar fore Mawrth, 16 Awst ac yna yn Eglwys URC Port Sunlight yn y pnawn o dan fy ngofal. Cymerodd Mr. Mervyn Phillips, Wyddgrug, Parch D. Gareth Rees ran a thraddodais deyrnged i'w yrfa nodedig gan mai ef oedd Gweinidog hynaf Eglwys Bresbyteraidd Cymru o ran maint y blynyddoedd, 68 mlynedd. 'Da was, da a ffyddlon'.**

***D. Ben Rees***

**Cyfres Newydd –**
**Darllenwyr yr Angor**

# Mrs ELIN BRYN BOYD,
## Aughton, Sir Gaerhifryn

Ganwyd fi yn Lerpwl ym mis Mawrth 1965, unig blentyn John a Margaret (Peggy) Bryn Jones. Roedd y cartref teuluol yn Aughton, Sir Gaerhirfryn, lle y magwyd fi a lle 'rwyn dal i fyw.

Yr wyf yn drydedd genhedlaeth o Gymry Glannau Mersi ac yn hynod o falch o'r ffaith honno. Ganwyd fy mam yn Lerpwl ond 'roedd ei theulu yn tarddu o Fethesda. Cafodd fy nhad ei eni a'i fagu ym Mhenrhyndeudraeth. Sicrhaodd fy rhieni fy mod i'n siarad Cymraeg yn gyntaf ar yr aelwyd, gan y byddwn yn mynd i'r ysgol yn Ormskirk, lle byddai fy ffrindiau i gyd yn siarad Saesneg.

Ond cedwais fy Nghymraeg yn rhugl trwy fy rhieni, a'm neiniau, Nain Bootle a Nain Penrhyn, a fy annwyl Auntie Eirian yn y cartref yn Radnor Drive, Bootle, a hefyd trwy weithgareddau amrywiol y Capel ar y Sul ac yn yr wythnos. Dan ofal Mrs. Meinwen Rees, Allerton llwyddais yn yr arholiad TGAU yn Gymraeg. Yr oedd hynny yn ddigwyddiad cwbl anarferol yn hanes Ysgol Ramadeg Ormskirk lle roeddwn yn ddisgybl..

Fy atgofion cynharaf o'r capel oedd yn Stanley Road, Bootle, lle y cawsom gymdeithas glos o ffrindiau, a nifer fawr o bobl ifanc yn mynychu'r Ysgol Sul, a oedd yn sylfaen wych mewn bywyd nes ymlaen.

Ar ôl gadael yr ysgol yn 1983, mynychais Coleg Prifysgol Cymru Bangor, a phlesiodd hynny fy hen fodryb, yr awdur, Dr Kate Roberts, a oedd wedi astudio yno y Gymraeg o dan Syr John Morris-Jones. Enillais radd BA gyda Anrhydedd mewn Saesneg.

Ym 1986, cefais swydd yn adran sifil Heddlu Glannau Mersi yn Lerpwl. Bum yn ffodus i weithio mewn sawl adran gwahanol gan gynnwys Personnel, Professional Standards a Force Intelligence. Yn y diwedd dilynais gwrs fel Archwilydd Risg a bum yn rhan o dim arbennig a oedd yn gyfrifol i'r Dirprwy Brif Gwnstabl. Cyfnod hapus iawn yn fy mywyd a 'rwyf wedi gwneud llawer o ffrindiau drwy fy ngwaith, a byddwn yn cwrdd yn gyson o hyd ..

Trwy weithio yn y *Professional Standards Department* y cyfarfûm â fy ngŵr, Jim Boyd. Priodwyd ni ym mis Medi, 2003 gan Y Parchedig D. Ben Rees yn Nghapel Bresbyteraidd Cymraeg Waterloo sydd bellach yn cael ei weddnewid yn fflatiau cyfforddus.. Roedd yn achlysur arbennig iawn i mi gan mai yno y priododd Nain Bootle hefyd. Er nad yw'r Jim yn siarad Cymraeg, mae bellach yn aelod o Gapel Cymraeg Bethania, yn gwerthfawrogi y gweinidogion a ddaw i gyhoeddi yr efengyl ac yn gefnogol iawn i'r achos.

Ers inni ymddeol yn 2008, 'rydym yn mwynhau teithio i'r Unol Daleithiau, Hong Kong, Singapore, Seland Newydd ac Awstralia. Fi ar ôl y diweddar E. Goronwy Owen ydi Trysorydd Capel Bethania, a hefyd yn gwirfoddoli efo Gymdeithas Alzheimer ac Age UK. Yr wyf yn aelod a Thrysorydd y côr cymuned, "Resound", sy'n canu ar gyfer cefnogi a chyfoethogi y gymuned. yn Sir Gaerhifryn. Braint arall y dair blynedd diwethaf yw cael bod yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi .Yr oedd dathliadau Gŵyl Mimosa yn Mis Mai 2015 yn fythgofiadwy

'Rwyf wedi darllen yr *Angor* ers iddo ymddangos yn 1979. Deuai i'n cartref trwy gapel Stanley Road, Bootle. Yr wyf yn ei gyfri yn gylchgrawn arbenning iawn, papur bro sy'n cadw y gymuned Gymraeg y Glannau yn fyw ac yn ymwybodol o'i threftadaeth.



***Elin Bryn Boyd***

# LLONGYFARCHIADAU



***Llongyfarchiadau i Dr Bill a Glenys Roberts yn dathlu 60 o flynyddoedd priodasol ar y 15fed o Fedi eleni. Mae'r ddau yn aelodau o gapel Willow Tree Road, Altrincham, ple mae Dr Bill wedi bod yn flaenor ers 1963.***

*Ysgrif Goffa*

# Mrs Gwyneth Eluned Thomas

**(1916-2016), New Brighton**



Saith mis wedi i deulu a ffrindiau lawenhau wrth gyfarch Gwyneth ar ei phenblwydd yn gant oed, tristwch arbennig oedd clywed am ei marwolaeth yn ysbyty Arrowe Park ar 15 Gorffennaf wedi gwaeledd byr.

Ganwyd Gwyneth ym Mangor ac addysgwyd hi yn Ysgol Cae Top, ac Ysgol Ramadeg y Merched. Un o Sir Fôn oedd ei mham a'i thad o Fangor. Roedd ganddi ddau frawd, Elwyn ac Emyr a chawsant blentyndod hapus a sefydlog hyd nes i'w mham farw pan oedd Gwyneth yn bymtheg oed. Daeth diwedd ar addysg y ferch alluog, academaidd er mwyn gofalu am y teulu. Yn ystod ar Ail Ryfel Byd gweithiodd yn wirfoddol gyda'r Groes Goch mewn ysbytai yng Ngogledd Cymru yn gofalu am rhai a anafwyd yn y rhyfel. Yma cyfarfu â John Thomas, morwr o Edern, Llŷn.

Wedi priodi John, symudodd Gwyneth, ei thad, ei meibion Elwyn a David i Gilgwri yn y pumdegau ac yn fuan wedi hynny ganwyd Libby. Dros y blynyddoedd, ehangodd y teulu a daeth wyrion, wyresau a gorwyrion a gorwyresau i lenwi ei bywyd gyda balchder a chariad. "Fy mabi del i," oedd ei dywediad arferol wrth afael mewn ychwanegiad arall at y teulu. Wedi i'r teulu adael cartref symudodd Gwyneth i fflat yn agos iawn i'w chartref ac yno cafodd flynyddoedd hapus, yn mwynhau cwmni cymdogion a ffrindiau.

Bu'r arwyl yn Amlosgfa Landican ar Ddydd Iau, Gorffennaf 28ain dan ofal y Barchedig Vivienne Gasteen. Ganddi hi clywsom hanes bywyd Gwyneth, ei chefndir a'i diddordebau a threialon. Colli ei mam, lladdwyd ei brawd tra'n gwasanaethu yn "Bomber Command" yn yr Ail Ryfel byd; bu farw ei gŵr John yn un a deugain oed, ac yn ddiweddarach collodd ei mab David yn Lerpwl yn ei chwedegau cynnar. Ond doedd dim chwerwder yng Ngwyneth, ond hiraeth a thristwch am y golled o fywydau mor ifanc. 'Roedd ei hysbryd yn fywiog a hwyliog a mwynhaodd fywyd hyd y diwedd.

Talwyd teyrnged ar ran y Gymdeithas y capel, a'r Cymry ehangach gan Mrs Eirwen Sargent gan gyfeirio at aelodaeth Gwyneth o gapeli Rock Ferry a Salem (Seion) dros hanner canrif. Bu'n llywydd ein Cymdeithas Gymraeg Birkenhead, yn aelod o'r pwyllgor, bob amser yn barod i gymeryd rhan, ac yn arbenigwr ar roi diolchiadau. Drwy'r cysylltiadau hyn cadwodd ei hiaith yn rhugl, a'i Chymreictod hyd y diwedd.

Mwynhaodd llawer o wyliau yn Nhrefecca, gan gyfrannau at hwyl, y noson lawen, cyfeilio i'r parti canu, ac ymddangos mewn sgetsys ysgafn.

Mwynhaodd wyliau gyda'i ffrindiau ar dripiau dros y wlad, ac yng nghwmni ei chyd-deithiwr daeth yn bobloglaidd iawn fel un oedd bob amser yn barod i godi'r "hwyl" a symud pethau ymlaen.

Treuliodd ei blynyddoedd olaf yng nghartref gofal Penkett House, New Brighton yn hapus a chysurus. Yma eto, roedd Gwyneth yn ffefryn gyda'r staff a'i chyd breswylwyr. Mynnodd ei *Daily Post* Cymraeg bob dydd – a gwae y dynion oedd yn ceisio ei ddarllen!

Bydd hiraeth ar ôl cymeriad mor ddeniadol, hoffus a bywiog, yn y cartref, ymysg llu o ffrindiau ac yn arbennig yn ei theulu. Anfonwn ein cydymdeimlad gwresog at bob un ohonynt. Diolchwn am y fraint o adnabod Gwyneth.

*Eirwen Sargent*

## GWAHODDIAD I GYMRY LERPWL

**CYFARFODYDD AC OEDFAON YNG NGHANOLFAN Y CYMRY AC EGLWYS BETHEL AM FISOEDD MEDI A HYDREF 2016**

*(Lleolir y Ganolfan ar gornel Auckland Road a Heathfield Road ar y ffin rhwng Allerton a Wavertree, canllath o Penny Lane)*

Ar y Sul am 10.30 (neu 2.,30) yng Nghapel Bethel

**MEDI 2016**

**Sul, 18 –** Oedfa o dan ofal y Parchg. Athro D. Ben Rees am 10.30
**Sul, 25 –** Oedfa o dan ofal y Parchg. Robert Parry, Wrecsam am 2.30 o'r gloch.

**HYDREF 2016**

**Sul, 2 –** Oedfa'r Sacrament a Diolchgarwch. Gweinyddir y Sacrament o Fedydd o dan ofal y Gweinidog am 10.30.
**Sul, 9 –** Oedfa o dan ofal y Parchg. Ioan W. Gruffydd, Pwllheli.
**Sul, 16 –** Oedfa pryd y bydd Dr. Rees yn gweinyddu y Sacrament o Swper yr Arglwydd am 10.30.
**Sul, 23 –** Ymweliad y Parchg. Aled Davies, Chwilog am 10.30 o'r gloch i gynnal oedfa.
**Sul, 30 –** Cymanfa Ganu Dosbarth Lerpwl **am 2.30 o'r gloch.**
I arwain: Trystan Lewis, Llandudno.

**Yn y Ganolfan ar Llun a Mawrth - Medi a Hydref am 7.30 o'r gloch**

**Llun, 19 –** Ail agor y Gymdeithas Lenyddol. Cwis o dan ofal Mrs Anne M. Jones. Llywydd: Mrs Eryl Dooling.
**Mawrth, 20 –** Darlith Alun Pari-Huws ar 'Bâd Achub Llandudno'. Llywydd: Roderick Owen.
**Llun, 26 –** Trafod y gyfrol ***'Duw yw'r Broblem'*** (Aled Jones Williams a Cynog Dafis)
**Mawrth, 27** - Bethan Gwanas yn sôn am ei llyfrau. Llywydd: Mrs Nan Hughes Parry.
**HYDREF: Llun 3 –** Oedfa Weddi Diolchgarwch am 2.30 o'r gloch
**Mawrth 4 –** Mari Gwilym ac Emrys o Gaernarfon ar 'Hiwmor y Cofis a Cofis y Wlad'. Llywydd: Roderick Owen.
**Llun, 10 –** 'Pawb a'i Farn'. Panel: Alun Davies, Brian Thonas a Dr. Arthur Thomas. Yr holwr: Dr. D. B. Rees.
**Mawrth, 11** – Darlith Manon Steffan Ros ar 'Ysbrydoliaeth'. Llywydd: Mrs Beryl Williams.
**Mawrth, 18 –** Noson Bruce Griffiths, Bangor ar 'Gwerin Eiriau'. Llywydd: Dr. D. Ben Rees.
**Llun, 24** – Cofio Trasiedi Aberfan (21 Hydref 1966) gan un oedd yno, D. B. Rees. Llywydd: Mrs Devida Broadbent.
**Nos Lun, 31** – Trafod ***'Duw yw'r Broblem'.***

**Cynhelir Dosbarthiadau Cymraeg y Dysgwyr bob Nos Lun o Medi 5 i Hydref 31**

# TUDALEN Y DYSGWYR

## O dan ofal Dr. Pat a Lowri Williams

**Y Tymhorau** ***(The Seasons)***

| | |
|---|---|
| Gwanwyn | Haf |
| Hydref | Gaeaf |

**Y Misoedd** ***(The months)***

| | |
|---|---|
| Ionawr | Gorffennaf |
| Chwefror | Awst |
| Mawrth | Medi |
| Ebrill | Hydref |
| Mai | Tachwedd |
| Mehefin | Rhagfyr |

(i) Darllenwch y darn isod am Yr Hydref (*Autumn or October*) a llenwch y bylchau o'r geiriau isod.
*(Read the passage below about Autumn and fill in the blanks from the words listed below. They are not in order of occurrence. A vocabulary is also supplied to help you.)*

**Gaeaf, llithrig, brown, Haf, Tachwedd, Medi, tymor, Gwanwyn.**

**Yr Hydref**

Yr Hydref yw trydydd _____ y flwyddyn. Mae'n dilyn yr ___ ac yn dod o flaen y _____. Tymor cyntaf y flwyddyn yw'r _____. Hydref yw enw'r degfed mis hefyd. Mae'n dilyn mis ____ ac yn dod o flaen mis ________. Dyma'r tymor pan mae'r dail yn troi eu lliw yn felyn a choch a ____. Mae'n hyfryd gweld y dail ar y palmentydd, pan fyddan nhw'n lliwgar a sych ond mae'n ddiflas pan maen nhw'n mynd yn wlyb a ______.

**Geirfa** *(in alphabetical order)*
diflas = miserable. llithrig = slippery
palmentydd = pavements (sg. palmant)
tymor = season. wlyb < gwlyb = wet

(ii) Darllenwch y darn isod a llenwch y bylchau o'r geiriau isod.
*(Read the passage below and fill in the blanks from the words listed below. They are not in order of occurrence. A vocabulary is also supplied to help you.)*
**ysgrifennu, rhedeg, meddw, rhoi, perygl, o gwmpas, gofyn, anffawd, bygwth**

**Traddodiad Cymreig am Nos Galan Gaeaf** ***(Hallowe'en)***
Mae Calan Gaeaf yn digwydd ar 31 (yr unfed ar ddeg ar hugain) Hydref. Heddiw mae plant yn mynd o gwmpas y tai yn ______ am dda-da ac yn y blaen, ond ers talwm roedd yna draddodiad gwahanol. Byddai merched a phlant yn dawnsio o gwmpas tân mawr. Byddai pawb yn ________ eu henwau ar gerrig ac yn eu gosod o gwmpas y tân. Os oedd un garreg ar goll yn y bore, byddai'r person hwnnw yn marw cyn pen y flwyddyn. Pan oedd y tân yn dechrau diffodd, bydden nhw'n _____ adre, rhag ofn cael eu dal gan yr Hwch Ddu Gwta. Roedd mamau yn _____ eu plant efo'r Hwch Ddu Gwta fel ffordd o'u cael nhw i fynd adre yn fuan. Byddai'r plentyn olaf mewn perygl o gael ei fwyta gan y bwystfil. Mae rhigwm am y bwsytfil:

Adre, adre am y cynta'
Hwch Ddu Gwta a gipia'r ola
*(Home, home, as soon as you can*
*The Hwch Ddu Gwta will catch the last.)*

Wedyn byddai'r dynion yn mynd _____ y tai yn cario pen caseg o'r enw Mari Lwyd. Roedd y pen i gadw pobl rhag _____. Roedd y dynion yn disgwyl cildwrn mewn arian neu fwyd ac os nad oedd pobl yn ____ rhywbeth iddyn nhw, roedd y dynion yn darogan _____ i'r teulu. Erbyn diwedd y noson byddai'r dynion yn _____ iawn.

**Geirfa** ***(in alphabetical order)***
anffawd = misfortune. bwystfil = beast, monster
byddai, bydden = would. bygwth = to threaten
caseg = mare. cerrig = stones (sg. carreg)
cildwrn = tip. Cymreig = Welsh (not the language)
da-da = sweets, also called pethau da, fferins, losin
dail = leaves (sg. deilen). dal = to catch, cael eu dal = were caught
darogan = predict. diffodd = to go out
feddw < meddw = drunk. fuan < buan = soon, early
goll < coll, ar goll = lost. gosod = to place
gwmpas, o gwmpas = around
Hwch Ddu Gwta (a bad omen in the form of a black sow with no tail).
hyfryd = lovely. perygl = danger
rhag = from; rhag ofn = in case. rhigwm = rhyme
tai = houses (sg. tŷ). traddodiad = tradition

(iii) Gwnewch eiriau o'r anagramau isod ar rai o fisoedd y flwyddyn. Gosodwch nhw mewn trefn ac ychwanegwch y rhai eraill.
(Make words from the anagrams below of some of the months of the year. Place them in order and supply the missing ones.)

air now. dime. ang offer
fine hem. swat. warmth

(iv) Darllenwch y gerdd hon gan William Williams (Crwys) yn uchel.
*Read out loud this poem by Crwys (his bardic name).*

**DYSGUB Y DAIL** ***(Sweeping the Leaves)***

Gwynt yr hydref ruai neithiwr,
Crynai'r dref i'w sail,
Ac mae henwr wrthi'n fore'n
'Sgubo'r dail

Yn ei blyg uwchben ei sgubell
Cerdd yn grwm a blin,
Megis deilen grin yn ymlid
Deilen grin.

Pentwr arall; yna gorffwys
Ennyd ar yn ail;
Hydref eto, a bydd yntau
Gyda'r dail.

**Geirfa**
blyg < plyg; yn ei blyg = stooping
cerdd = walks (3 sg. pres. of cerdedd). crwm = stooping
crynai = shook (3 sg. imperfect tense of crynu). ennyd = a while
fore < bore; yn fore = early. deilen = leaf
grin < crin = withered. gwahanol = different.
henwr < hen ŵr = old man. neithiwr = last night
pentwr = heap. ruai = roared (3 sg. imperfect tense of rhuo)
sail = foundation. sgubell = brush
'sgubo = to sweep. ymlid = to chase

(v) **Grammatical points**
There are 2 different words for is: "mae" and "yw" (colloquially "ydy")

(a) Someone **is doing** something.
**Mae** rhywun **yn** gwneud rhywbeth.

The old man is sweeping leaves
**Mae'r** hen ŵr **yn** sgubo dail.

(b) X **is the** Y
X **yw** / **ydy** Y

Carwyn Jones **is the** first minister.
Carwyn Jones **yw'r** / **ydy'r** prif weinidog.

Autumn **is the** third season of the year.
Yr Hydref **yw** / **ydy** trydydd tymor y flwyddyn.

(c) X **is a** Y
The Hwch Ddu Gwta **is a** monster.
**Mae'r** Hwch Ddu Gwta **yn** fwystil.

Hallowe'en **is a** Celtic festival.

# Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi
# Gŵyl Cadair Ddu Penbedw â Hedd Wyn 1917-2017

**Gŵyl Hedd Wyn Medi 9-10, 2017**

Yr ydym mewn partneriaeth gyda Cyfeillion Parc Penbedw ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn paratoi rhaglen amrywiol a fydd o fudd mawr i Gymru a Glannau Mersi, Mechelan, Gwlad Belg a Fflandrys, lle y ceir cofeb i'r un a syrthiodd ym mrwydr Cefn Pilkem, 31 Gorffennaf 1917.



Bwriadwn ger Canolfan Parc hardd Birkenhead osod Pabell, ac yn y babell a'r Ganolfan y bydd gweithgareddau y ddau ddiwrnod arbennig. Agorir y Dathlu yn Nhrawsfynydd ar 6 Medi 1917 a byddwn yn

1) Mynd ati trwy arbenigwyr i lanhau y Gofeb sydd yn y Parc a gosod geiriau i gofio camp ac aberth Ellis Humphrey Evans o Royal Welch Fusiliers 15th Battalion ('Hedd Wyn', 1887-1917) awdur yr awdl 'Yr Arwr'. Ysgrifennwyd hanner yr awdl yn Yr Ysgwrn, Trawsfynydd, a'r hanner arall yn y gwersyll yn Litherland a'i phostio o faes y gwaed yn Ffrainc. Cyst y gwath hwn o leiaf £4,000. Ail ddatgorchuddir y Gofeb ar bnawn Sadwrn, 9 Medi am 3 o'r gloch.

2) I baratoi rhaglen uchelgeisiol y penwythnos, yn cynnwys sgyrsiau, darlith ar Hedd Wyn, Lloyd George, cadeirio Bardd y Gadair Ddu a'i chrewr Eugen Vanfleteren, y rhoddwr David Evans, Talwrn y Beirdd, Telyn, Corau, Gwasanaeth Crefyddol a Gŵyl y Gân ar batrwm Cymanfa Ganu 1917. Cofir hefyd am y Cymry o lannau Mersi a gollodd eu bywydau.

Byddwn felly yn ddiolchgar am dderbyn cyfraniadau tuag at y gost a'r rhaglen lawn ar y ddeuddydd.

**Anfonwch eich cyfraniad ariannol os y dymunwch i Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Allerton, Liverpool L18 6HW. Bydd pob cyfraniad yn cael ei nodi yn ein papur bro a hefyd yn Rhaglen yr Ŵyl os na nodir yn wahanol. Dylai'r sieciau cael ei llenwi i Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi.**

Gyda diolch

*Dr. D. Ben Rees (Cadeirydd)*
*Ms Rachel Gooding (Trysorydd)*
*Dr. Arthur Thomas (Ysgrifennydd)*

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2016. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor** y*w £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

**• RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Tachwedd 2016 –** erbyn bore Sul, 2 Hydref, 2016 – neu ar y we i benatgarthdrive@ talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Rhagfyr 2016 / Ionawr 2017** erbyn pnawn Sul, 30 Hydref, 2016 yn y Gymanfa Ganu – y lluniau, adroddiadau etc.

**iii) Rhifyn Chwefror 2017 –** erbyn bore Sul, 1 Ionawr, 2017 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn ar 3 Ionawr, 2017.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

- **Cyfarfod nesaf Pwyllgor Gwaith Yr Angor** – yn Ionawr 2017.

## Llongyfarchiadau i Efa Lois Thomas, Aberystwyth (a Lerpwl)

Enillodd Efa Lois Thomas o Aberystwyth y blaen ar wyth ymgeisydd arall gan gipio Ysgoloriaeth Bensaernïaeth £1,500 yr Eisteddfod Genedlaethol, a gefnogir gan Gomisiwn Dylunio Cymru. Mae Efa yn fyfyrwraig 21 oed newydd gwblhau gradd B.A. yn yr Ysgol Bensaernïaeth ym Mhrifysgol Lerpwl.


Amcan yr ysgoloriaeth, sy'n agored i'r sawl dan 25 oed o Gymru neu â chysylltiad â Chymru, yw rhoi cyfle i'r ymgeisydd mwyaf addawol i ledaenu ei ddealltwriaeth o bensaernïaeth greadigol.

Enillodd yr ysgoloriaeth gyda'i chynnig am Ganolfan Ddiwylliant Gymreig mewn adeilad newydd yn Maryland Street, Lerpwl. Roedd ei chynllun ar gyfer ffasâd yr adeilad yn ymgorffori patrymau a ysbrydolwyd gan batrymau carthenni traddodiadol, gan gynnwys rhai a gludwyd gan y Cymry a hwyliodd i Batagonia o Lerpwl yn 1865.

***– John Williams***



***Efa Lois Thomas***



***Model o'r Ganolfan Diwylliant Cymraeg Lerpwl***

## HOLIADUR DWEUD EICH DWEUD

Cyfle i chi ddweud eich dweud am ddyfodol S4C

Beth yw eich hoff raglenni ar S4C? Beth ddylai S4C fod yn ei ddarparu yn y dyfodol? Beth mae sianel deledu Gymraeg yn ei olygu i chi?

Mae cyfle i chi roi eich barn a chyfrannu at y drafodaeth am ddyfodol S4C yn yr holiadur 'Dweud eich Dweud' sydd ar gael i bawb ei llenwi ar wefan s4c.cymru

Mae S4C yn awyddus fod llais y bobl yn cael ei glywed yn rhan o'r paratoadau ar gyfer Adolygiad Annibynnol Llywodraeth y DU o S4C yn 2017. Mi fydd yr Adolygiad yn edrych ar waith a rôl S4C a'r math o wasanaeth sy'n debyg o fod ei angen yn y dyfodol.

Yn ôl Huw Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C, mae hi'n bwysig iawn cynnwys y cyhoedd yn y sgwrs.

Meddai Huw Jones; "Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed – pa fath o wasanaeth mae pobl eisiau ei weld a pha wasanaeth aml gyfryngol fydd ei angen yn y dyfodol. Ein gobaith yw y bydd Adolygiad yn ystyried hyn yn ofalus ynghyd â sut y gall S4C ddarparu ac ariannu gwasanaeth yn y ddeng mlynedd nesaf."

Ewch i wefan s4c.cymru nawr i lewni'r holiadur er mwyn Ddweud eich Dweud am S4C.



***Huw Jones - Cadeirydd Awdurdod S4C***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514



# Anrhydeddu Cadeirydd Yr Angor yn yr Ŵyl Dr. John G. Williams ('Gwydrin')

***Gwydrin (Dr. JGW) a'r Archdderwydd Geraint.***
*Cafwyd y llun trwy ganiatad Lluniau'r Llwyfan*

## LLYTHYR I'R ANGOR

*Ffordd Gwydrin*
*Lerpwl L18*
*29/8/2016*

*Annwyl Mr. Golygydd*

Hoffwn fynegi fy niolch trwy 'Yr Angor' i chi a phawb arall sydd wedi fy llongyfarch ar gael fy urddo gyda'r Wisg Las gan Orsedd y Beirdd eleni. Cefais ddiwrnod bythgofiadwy ar ddiwrnod y Seremoni gyda fy nheulu. Brawddeg olaf anerchiad yr Archdderwydd ar ddiwedd y seremoni oedd 'Gwerthfawrogwch ein diwylliant, amddiffynwch yr iaith' – dyna'r her i ni i gyd.

*Gyda ddiolch*
*John*



***Sara, Beryl, John a Rhys yn y Fenni***

---




Llun gan Roderick Owen

***Capten y llong Libertad; Dr. D. Ben Rees; Ian Pollitt o Peel Holdings; Llysgenhad newydd Ariannin a Dr. Arthur Thomas***

# *Seremoni wrth Gofeb Mimosa*

Gwledd oedd gweld y llong o'r Ariannin o flaen pencadlys Peel Holdings ger yr afon Mersi dros benwythnos olaf mis Gorffennaf. Heidiodd dwy fil o bobl i'r llong ar y Sul ac ar y Llun cynhaliwyd Seremoni hardd pan osodwyd plethdorch yn ymyl y Mimosa.

Da oedd gweld Roderick a Norma Owen yn cynrychioli y Gymdeithas Gymraeg a'r Parch Victor Edwards o Benbedw, sy'n rhugl yn y Sbaeneg.

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*